Brig y Goeden

# Sami Sgrap a Sali Sgrap


CAROLYN BEAR



# Sami Sgrap a Sali Sgrap

CAROLYN BEAR

Lluniau gan John Prater



DRAKE


Lluniau gan John Prater
Addasiad Cymraeg gan Juli Paschalis

© Argraffiad Saesneg, Carolyn Bear 1999
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2002
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-496-9

Cyhoeddwyd gan Wasg Addysgol Drake
Ffordd Sain Ffagan, Y Tyllgoed,
Caerdydd CF5 3AE
Ffôn: 029 2056 0333
Ffacs: 029 2055 4909
e-bost: drakegroup@btinternet.com
y we: www.drakegroup.co.uk

Argraffwyd yng Nghymru




# Pennod Un

Nid dyn cyffredin oedd Sami Sgrap. Dyn mecanyddol oedd e. A dweud y gwir, fe oedd y dyn mecanyddol mwyaf anhygoel a wnaed erioed. Roedd ganddo freichiau allai estyn ddwywaith cyn belled â dyn cyffredin. Roedd ganddo goesau telesgopig a fedrai ymestyn cyn hired â stilts pan oedd e am estyn rhywbeth uchel.

Ond doedd ganddo ddim ymennydd da iawn.

Eiddo perchennog iard sgrap oedd Sami Sgrap. Dafydd oedd enw hwnnw. Byddai Dafydd yn hel y darnau defnyddiol o'r holl bethau di-werth y byddai pobl yn eu hanfon i'w iard sgrap.




Roedd e wedi gwneud Sami Sgrap allan o lwyth o wahanol rannau. Roedd ei ymennydd wedi ei wneud o drefnydd personol oedd wedi ei daflu am ei fod yn mynd o chwith drwy'r amser. Ac roedd yn dal i fynd o chwith. Ond nawr roedd Sami Sgrap yn mynd o chwith gydag e.

Fel y bore 'ma…

"Od iâr," meddai Sami Sgrap wrth iddo roi ei ben drwy'r ffenestr i edrych ar gyflwr y tywydd - roedd wedi anghofio ei hagor gyntaf!

Roedd Dafydd yn cyrraedd i ddechrau ei ddiwrnod gwaith. Rhoddodd ei fag brechdanau i lawr a safodd yno â'i ddwylo ar ei gluniau.


"Sami Sgrap! Sawl gwaith rydw i wedi dweud wrthot ti am feddwl cyn gwneud rhywbeth!"



"Mŵ geni," atebodd Sami Sgrap. (Doedd ei ymennydd ddim yn dda iawn, nac oedd?)

Roedd Dafydd yn dawel iawn gydol y dydd. Prin y chwibanodd e unwaith wrth weithio ac roedd hynny'n arwydd *drwg*.


Roedd gan Sami Sgrap gywilydd mawr ohono'i hun.




Wrth iddo weithio yn yr iard sgrap, meddyliodd yn galed iawn cyn gwneud dim. Meddyliodd cyn codi unrhyw beth a meddyliodd cyn ei roi i lawr.

Mewn difrif, meddyliodd mor galed fel na wnaeth fawr ddim y diwrnod hwnnw.

O'r diwedd, roedd Dafydd wedi trwsio'r ffenestr, bwyta ei frechdanau, gorffen ei waith a mynd tua thref am y nos.




Eisteddodd Sami Sgrap i lawr y tu mewn i'r sied yn teimlo'n drist iawn. Fe roddai'r byd am gael bod yn glyfar fel Dafydd.




Ar hyn o bryd, pan fyddai amser sbâr gan Dafydd, roedd yn gweithio ar y ddyfais ffantastig yma. Roedd yn anferth. Cymerai bron hanner y lle yn y sied ac roedd y cynlluniau ar ei gyfer wedi eu pinio dros bob wal. Awyren ryfeddol oedd hi nad oedd angen petrol i hedfan.


Eisteddodd Sami Sgrap ar y llawr a syllu ar y ddyfais. Roedd yn anniddorol bod ar ei ben ei hun yn y sied yn y nos. Doedd ganddo ddim byd i'w wneud.



Safodd a thynnu stumiau arno'i hun yn y ffenestr wydr newydd sgleiniog.




Yna eisteddodd eto a chwarae OXO gyda'i hun yn y llwch ar y llawr. Ac fel arfer, fe gollodd.




Yna cododd sgriwdreifer Dafydd. Roedd pentwr o fanion bethau ar y fainc weithio. Roedd yno nytiau, bolltiau a sgriwiau.

Roedd ambell ddarn o wifren, a thrionglau bach o fetel oedd wedi eu torri oddi ar gorneli rhywbeth arall. Yno hefyd roedd côn siâp od oedd yn edrych yn eitha tebyg i drwyn.




Dechreuodd Sami Sgrap chwarae â'r darnau gwahanol, gan eu rhoi at ei gilydd ac yna eu datod eto. Ac yna, yn sydyn, prin y medrai gredu'r hyn a welai. Roedd e wedi gwneud rhywbeth!

Edrychodd Sami Sgrap arno ac edrychodd e 'nôl ar Sami Sgrap. Roedd ganddo ddau glust pigog a thrwyn a wisgers. A dweud y gwir, edrychai'n union 'run fath â...chath.



"SALI SGRAP!" meddai Sami Sgrap.

Roedd yn gyffrous iawn. Petai'n gweithio ychydig mwy arni, byddai ganddo rywun i rannu'r sied â hi. Rhywun i chwarae gyda hi drwy'r nosweithiau hirion, unig, pan nad oedd Dafydd yno.




Gweithiodd fel dyn dwl drwy'r nos.

Cafodd hyd i dun mawr, tew, yn gorff a glynodd y pen arno.

Yna torrodd bedair coes oddi ar gadair a glynu'r rheiny oddi tano, a chafodd yr union beth i greu cynffon!

Wrth i'r haul godi, safodd Sami Sgrap yn ôl ac edmygu'r hyn roedd e wedi ei wneud.

"Pwy sy, Pwy sy," galwodd. Ond symudai Sali Sgrap ddim.




Estynnodd Sami Sgrap ddarn o gortyn a'i thynnu ar draws y llawr - ond ddigwyddodd dim byd eto.

"Od iâr," meddai Sami Sgrap. Roedd e wedi gwneud Sali Sgrap ond roedd rhywbeth o'i le.

Roedd pob cath yr oedd e wedi eu gweld yn yr iard sgrap yn medru sefyll ac eistedd, a cherdded ar hyd waliau a neidio ar ben y to. Ond fedrai'r gath hon wneud dim.

Cododd e Sali Sgrap yn drist a'i chuddio mewn cwpwrdd.




## Pennod Dau

Y bore wedyn, cyrhaeddodd Dafydd yr iard sgrap i weld Sami Sgrap yn cysgu'n drwm.

"Cod, was. Mae gwaith i'w wneud," meddai'n siarp. "Heddiw rydw i'n mynd i orffen fy nyfais fawr."

"O Dai awn" atebodd Sami Sgrap.



Gwisgodd Dafydd ei oferôl a thanio ei radio. Yna cododd sgriwdreifer a mynd at ei fainc weithio.


"Dyna ryfedd," meddai.


Edrychodd dan y bwrdd am yr holl bethau yr oedd wedi eu gadael ar ben y bwrdd.

Yna sylwodd ar ei gadair. Fe'i trodd wyneb-i-waered i weld beth oedd wedi digwydd i'r coesau.

"Mae hyn yn rhyfedd iawn," meddai Dafydd.


Ddywedodd Sami Sgrap ddim gair. Safodd o flaen y cwpwrdd.






"Sami Sgrap," meddai Dafydd. "Welaist ti rywun yn dod i mewn i'r sied neithiwr?"

Siglodd Sami Sgrap ei ben. "Neb," atebodd.




Felly i ffwrdd â Dafydd i ochr bellaf yr iard sgrap i chwilio am ragor o nytiau a bolltiau a gwifren, a chôn arall oedd yn edrych fel trwyn.




Tra oedd Dafydd o'r golwg, tynnodd Sami Sgrap Sali Sgrap o'r cwpwrdd. Roedd e wedi cael syniad. Cofiodd beth oedd wedi digwydd pan nad oedd radio Dafydd yn gweithio. Roedd Dafydd wedi ei agor e a gosod batris newydd ynddo.

Trodd Sami Sgrap Sali Sgrap ar ei chefn. Yna tynnodd y batris newydd sbon o radio Dafydd a'u rhoi'n ofalus ym mol Sali Sgrap - un yn wynbeu'r pen a'r llall yn wynebu'r gynffon.

Yna gosododd Sali Sgrap ar ei thraed eto.



Yn gyntaf, cododd Sali Sgrap ei chlustiau.

Yna cododd ar ei phedwar ac ymeeeee-styn.


"O Dai awn," meddai Sami Sgrap.

Rhoddodd Sali Sgrap ei phen ar un ochr ac edrych ar Sami Sgrap. Syllodd arno am beth amser.


Yna safodd ar ei phawennau ôl a cherdded at Sami Sgrap - yn union fel person.

"O, na," meddai Sami Sgrap. "Nid pêr sôn wyt ti. Cath wyt ti."

Ond doedd Sali Sgrap ddim yn deall.




"Edrych," meddai Sami Sgrap, gan fynd ar ei bedwar. "Copïa fi. Dyma fel y dylai cath gerdded."



Aeth Sali Sgrap ar ei phedwar. Ond pan safodd Sami Sgrap eto, dyna a wnaeth Sali Sgrap hefyd.

"Od iâr," meddai Sami Sgrap, ac yn ôl ag e yn ei gwrcwd.




Dyna pryd y cyrhaeddodd Enid. Ffrind arbennig Sami Sgrap oedd Enid. Galwai hi heibio bob wythnos i'w ddysgu sut i siarad yn iawn.

"Nid *od iâr* yw e, Sami Sgrap. *O diar* yw e," eglurodd Enid. "Beth wyt ti'n ei wneud ar y llawr?"

Eisteddodd Sami Sgrap ar gadair. Ac eisteddodd Sali Sgrap ar stôl yn ei ymyl a chroesi ei choesau.


"Am gath ddoniol," meddai Enid. "Welais i erioed gath yn eistedd fel yna o'r blaen."

"Mae Sali Sgrap yn credu mai pêr sôn yw hi," esboniodd Sami Sgrap yn drist. "Dyw hi erioed wedi gweld cath go iawn."



"Druan o Sali Sgrap," meddai Enid. A rhedodd hi adre bob cam a dod yn ôl gyda Clwten, ei chath ei hun.

"Nawr dyma gath go iawn," meddai Enid.




Edrychodd Clwten ar Sali Sgrap a safodd ei ffwr yn stond. Gwnaeth Sali Sgrap ei gorau glas i'w chopïo. Yna fflwffiodd cynffon Clwten fel brws glanhau-potel. Doedd hynny ddim yn broblem i Sali Sgrap.

Safodd Clwten ar flaenau pob un o'i thraed a hisian. Yna saethodd drwy'r drws cyn gynted ag y gallai ei choesau ei chario.

A rhuthrodd Sali Sgrap ar ei hôl.

"Od iâr," dywedodd Sami Sgrap. A rhedodd e ac Enid ar ôl y cathod cyn gynted ag y medren nhw.



Buon nhw'n chwilio'r strydoedd am oriau ac oriau. O'r diwedd clywson nhw sŵn trist uwch eu pennau.


*"Miaow...miaow...miaow."*

Clwten oedd yno. Roedd hi'n sownd ar gangen uchaf coeden dal.

"O diar, all hi ddim dod i lawr," meddai Enid.


Ond doedd hyn ddim yn broblem i Sami Sgrap. Estynnodd ei goesau telesgopig i'w llawn hyd a'i thynnu o'r goeden.

Rhoddodd Sami Sgrap Clwten yn ôl i Enid. Yna edrychon nhw am Sali Sgrap.






Buon nhw'n galw a chwibanu a tharo fforc ar blât, ond doedd dim golwg o Sali Sgrap yn unman.




Yn drist iawn, aeth Sami Sgrap yn ôl i'r iard sgrap hebddi.



Tra oedd Sami Sgrap allan, roedd Dafydd wedi dod yn ôl â nytiau, bolltiau a darnau o wifren. Ond doedd e ddim yn gallu cael gafael ar gôn arall oedd yn edrych fel trwyn.

Ta waeth am hynny, gwisgodd ei oferôl, aeth at ei fainc weithio a thaniodd y radio. Ond ddigwyddodd dim byd.




"Dyna ryfedd," meddyliodd Dafydd. Dim ond y diwrnod cynt roedd e wedi rhoi batris newydd i mewn.


Pan ddaeth Sami Sgrap yn ôl, edrychodd Dafydd arno yn flin.

"Sami Sgrap. Wyt ti'n gwybod ble mae batris fy radio i wedi mynd?"

Siglodd Sami Sgrap ei ben yn drist. Petai'n gwybod ble roedd y batris wedi mynd, byddai'n gwybod ble roedd Sali Sgrap. Ond roedd Sali Sgrap ar goll.





# Pennod Tri



Y noson honno, eisteddodd Sami Sgrap ar ei ben ei hun yn y sied yn teimlo'n fwy unig nag erioed.

Syllodd allan drwy'r ffenestr wydr newydd ond fedrai e ddim gweld Sali Sgrap yn unlle. Doedd hyn ddim yn syndod gan fod Sali Sgrap yn eistedd y tu allan i'r drws yn disgwyl cael dod i mewn.

Bu Sami Sgrap yn troi ac yn trosi ond fedrai e ddim cysgu. O'r diwedd, penderfynodd fynd allan i chwilio eto am Sali Sgrap. Wrth iddo fynd drwy'r drws, disgynnodd dros rywbeth.




Sali Sgrap oedd hi.

Dyna pryd y sylweddolodd Sami Sgrap fod rhywbeth arall o'i le. Doedd Sali Sgrap ddim yn dweud miaow. Fedrai hi ddim dweud miaow am nad oedd Sami Sgrap wedi rhoi llais iddi, i ddweud miaow ag e.

Crafodd Sami Sgrap ei ben a chwilio a chwalu drwy ei ymennydd. Syllodd allan ar yr iard sgrap lle roedd yr holl beiriannau a'r ceir wedi torri yn disgleirio yng ngolau'r lleuad.

Yna cafodd syniad.

Gafaelodd yn sgriwdreifer Dafydd a dringodd i mewn i sedd gyrrwr un o'r ceir. Bu'n brysur iawn am beth amser.




Y bore wedyn, daeth Dafydd i mewn i'r iard sgrap â phapur newydd yn ei law.

"Edrych ar hyn, wir," meddai wrth Sami Sgrap. Pwyntiodd at y paragraff oedd yn dweud,

'Gofal - Bwrgleriaid yn y Dre!'

"Od iâr," meddai Sami Sgrap.





"Mae hyn yn egluro popeth," meddai Dafydd. "Yn gyntaf, y rhannau ar gyfer fy nyfais fawr. Wedyn coesau fy nghadair. Yna batris fy radio. Beth nesaf, tybed?"

Safodd Sami Sgrap o flaen y cwpwrdd a dweud: "Bwni ddim."

"Fy nyfais fawr!" meddai Dafydd. "Dyna fydd e. Fedrwn ni ddim bod yn rhy ofalus."


Ac aeth ati'n brysur i osod hen larwm lladron roedd e wedi cael hyd iddo mewn sgip, ar y wal. Wedi iddo orffen, rhoddodd brawf arno i weld a oedd yn gweithio.

Aeth, '*Brrrr...rrrrr...rrrrrr,*' yn uchel iawn, iawn.



Y noson honno, pan oedd Dafydd wedi mynd tua thre, cyrhaeddodd Enid a Clwten. Gollyngodd Sami Sgrap Sali Sgrap allan o'r cwpwrdd.

Edrychodd Clwten ar Sali Sgrap, cododd ei chefn a hisian. Rhoddodd miaow uchel iawn.




A chododd Sali Sgrap ei chefn a dweud, *"Bîp, bîp."*

Edrychodd Clwten ar Sali Sgrap â golwg llawn dirmyg. Edrychodd ar Sali Sgrap a meddwl mai hi oedd y gath fwyaf gwirion ar y blaned.

"Rwyt ti'n wirion, Sami Sgrap," meddai Enid. "Nid dyna'r math o sŵn mae cath yn ei wneud."

"Od iâr," meddai Sami Sgrap yn drist. A phlygodd i fwytho Sali Sgrap rhag brifo ei theimladau.





Yna plygodd Enid i fwytho Clwten rhag brifo ei theimladau hi hefyd. A rholiodd Clwten ar ei chefn a chanu grwndi'n braf.

"Wyt ti'n gweld? Dyna'r math o sŵn mae cath yn ei wneud," meddai Enid.

"Bîp, bîp," meddai Sali Sgrap.


"Od iâr," meddai Sami Sgrap.






Pan oedd Enid wedi mynd, eisteddodd Sami Sgrap gyda Sali Sgrap a theimlo'n drist iawn. Roedd e wedi gwneud cath. Ond doedd hi ddim yn gath dda iawn. Allai Sali Sgrap ddim dweud miaow. Allai Sali Sgrap ddim canu grwndi hyd yn oed.

Syllodd ar y wal am gryn amser ac yna cafodd syniad.




Gafaelodd yn sgriwdreifer Dafydd ac estyn i'w lawn daldra a thynnu'r larwm lladron i lawr. Bu'n brysur wrth ei waith am beth amser.




Tynnodd Sali Sgrap yn ddarnau. Sgriwiodd y gloch a dynnodd o'r larwm lladron i mewn iddi ac yna ei rhoi yn ôl gyda'i gilydd. Yna rhoddodd brawf arni i weld a oedd hi'n gweithio.


Rholiodd Sali Sgrap ar ei chefn a dweud, "*Brrrr...rrrrr...rrrrrr.*"



"Dai awn," meddai Sami Sgrap. Roedd y sŵn yn well o lawer na grwndi Clwten. Dyma'r canu grwndi uchaf a fu gan unrhyw gath erioed.

Y tro nesaf y daeth Enid a Clwten i ymweld â Sami Sgrap, tynnodd e Sali Sgrap o'r cwpwrdd. Rholiodd honno ar ei chefn a chanu grwndi.

"*Brrrr...rrrrr...rrrrrr.*"




Neidiodd Clwten allan drwy'r ffenestr. Safodd Enid â'i dwylo dros ei chlustiau a gwaeddodd ar Sami Sgrap.

"Am dwrw ofnadwy. Rho daw arni hi!"


"Od iâr," meddai Sami Sgrap.


Fedrai Sali Sgrap ddim dweud miaow yn iawn. Fedrai hi ddim canu grwndi'n iawn, hyd yn oed. Cath anobeithiol oedd hi yn wir.



Pan oedd Enid wedi mynd, cododd Sami Sgrap sgriwdreifer Dafydd.

Roedd e wedi penderfynu tynnu Sali Sgrap yn ddarnau a rhoi'r gloch o'r larwm, a'r batris o'r radio, a choesau'r gadair, a'r côn oedd yn edrych rhywbeth fel trwyn, yn ôl.






Ond edrychodd Sami Sgrap ar Sali Sgrap. A phwysodd Sali Sgrap ei phen ar un ochr ac edrych ar Sami Sgrap.

A phenderfynodd Sami Sgrap na fyddai'n gwneud drwg i gadw Sali Sgrap am un noson arall. Fe'i tynnai'n rhydd yn y bore.

Felly rhoddodd Sali Sgrap yn ôl yn y cwpwrdd ac aeth i gysgu.


Ychydig yn ddiweddarach, dyma ddau wyneb yn ymddangos yn y ffenestr. Roedden nhw'n syllu ar ddyfais fawr Dafydd. BWRGLERIAID oedden nhw!




Mewn llai na munud roedden nhw wedi torri'r ffenestr a dringo i mewn. Achos chanodd mo'r larwm lladron, naddo?

Cyn i Sami Sgrap gael amser hyd yn oed i ddeffro, roedden nhw wedi ei glymu â rhaff. Yna clymon nhw recsyn seimllyd budr am ei geg fel na fedrai weiddi. Ac yna dechreuon nhw lusgo dyfais fawr Dafydd allan o'r sied.


Gwyliodd Sami Sgrap nhw yn drist. Fedrai e wneud dim.




Ond clywodd Sali Sgrap dwrw'r bwrgleriaid. Neidiodd hi allan o'r cwpwrdd. Gwelodd fod Sami Sgrap wedi ei glymu a theimlodd yn flin iawn amdano fe. Felly aeth draw ato a rhwbio'i hun yn ei erbyn.

A dyna pryd y dechreuodd ganu grwndi.

"*Brrrr...rrrrr...rrrrrr.*"



Ar amrantiad, gollyngodd y bwrgleriaid y ddyfais fawr a rhedeg allan o'r sied. Ond aethon nhw ddim yn bell iawn. Roedd rhywun wedi clywed Sali Sgrap ac wedi ffonio'r heddlu.





Gyrrodd tri char heddlu yno mewn pryd i ddal y lladron wrth iddyn nhw ddianc yn eu fan.

Toc, cyrhaeddodd Dafydd. Datododd glymau Sami Sgrap a thynnodd y rhecsyn seimllyd. Yna sylwodd ar Sali Sgrap.

"O ble y daeth hon?" gofynnodd.

Plygodd Sami Sgrap ei ben. "O'r cwpwrdd," meddai.





Edrychodd Dafydd ar Sali Sgrap yn fanwl. Edrychodd ar ei chlustiau a'i wisgers a'i phedair coes. Edrychodd ar ei thrwyn oedd yn eitha tebyg i gôn.

Crafodd ei ên. Yna gofynnodd, "Pwy wnaeth y gath hon, Sami Sgrap?"

Teimlai Sami Sgrap gywilydd mawr.


"Sami Sgrap," meddai.

Arhosodd i Dafydd arthio arno. Ond yn lle hynny, rhoddodd Dafydd law ar ei ysgwydd a dweud, "Sami Sgrap, doedd gen i ddim syniad dy fod mor glyfar. Mae'n gath ragorol! Dyma'r gath fwyaf rhyfeddol i mi ei gweld erioed! Wyt ti'n sylweddoli mai hon yw'r unig iard sgrap yn y byd i gyd â chath yn ei gwarchod?"




Fedrai Sami Sgrap ddim credu y gallai unrhyw un ddweud y fath bethau caredig amdano. Pa ots os nad oedd ganddo ymennydd da iawn? Roedd yn gweithio, on'd oedd? A rholiodd Sali Sgrap ar ei chefn a chanu grwndi.

"*Brrrr...rrrrr...rrrrrr.*"



# *Am yr awdur*



Daeth y syniad ar gyfer y llyfr hwn o lwyth o lythyron a anfonwyd ataf gan blant Ysgol Mapplewells. Ysgrifennon nhw ataf i ddweud faint yr oedden nhw wedi mwynhau'r llyfr cyntaf am Sami Sgrap, a gofynnodd sawl un i fi ysgrifennu llyfr arall amdano.

Roedd lluniau ffantastig gyda phob llythyr ac yno, ar ganol llun gan fachgen o'r enw Rory Miller, roedd rhywbeth oedd yn reit debyg i ...Sali Sgrap!

Felly hoffai Sami Sgrap a fi ddiolch i ti, Rory, am roi'r syniad inni!

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 12+:**

**Pecyn A**

*Gwobrau i Dadau* gan Debbie White
*Bechingalw a'r Robot* gan Jonathan Emmett
*Fflwffen yn Ffordd y Ffridd* gan Pat Belford
*Ann Hygoel a'r Cas Wir* gan Stephen Elboz
*Wythnos Wasi a Fi* gan Pippa Goodhart
*Sami Sgrap a Sali Sgrap* gan Carolyn Bear

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 12+

# Sami Sgrap â Sali Sgrap

Gwnaeth Sami Sgrap Sali Sgrap allan o fanion bethau o'r iard sgrap. Felly doedd hi ddim yn dda iawn.

"Bîp, bîp," meddai Sali Sgrap.

"Od iâr," meddai Sami Sgrap.

Beth yn y byd roedd Sami Sgrap am ei wneud â hi?



ISBN 0-86174-496-9

9 780861 744961

ISBN 0 86174 496 9 DRAKE